# Canfyddiadau gwaith archwilio perfformiad

## Asesiad strwythuredig

Fe wnaeth fy nhîm ystyried pa mor dda y mae’r Ymddiriedolaeth yn cael ei llywodraethu ac a yw’n defnyddio ei hadnoddau yn y ffordd orau.

Canfûm fod gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd effeithiol a gefnogir gan drefniadau llywodraethu da. Mae systemau i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd yn effeithiol ac yn cael eu cryfhau trwy ddatblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd ymhellach. Mae cynllun ansawdd newydd yn cael ei roi ar waith, ond mae’n debygol o fod yn her i’w gyflawni heb gyllid wedi’i neilltuo.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig eglur a chymeradwy ac yn ddiweddar mae wedi cymeradwyo set o amcanion llesiant. Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer sylweddol o raglenni newid ar y gweill, gyda chapasiti cyfyngedig i’w cefnogi. Mae felly’n atal datblygiad rhai cynlluniau corfforaethol am y tro ac yn gohirio rhai gweithgareddau arfaethedig i ddiogelu capasiti ar gyfer blaenoriaethau allweddol.

Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth reol ei chyllid yn dda i gyflawni ei dyletswyddau ariannol allweddol yn ystod 2024-25. Yn gadarnhaol, mae’n lleihau ei dibyniaeth ar arbedion anghylchol. Eto, mae’r Ymddiriedolaeth yn wynebu pwysau ariannol mwyfwy heriol eleni sy’n creu risgiau i gyflawni’r sefyllfa adennill costau a ragwelir ganddi. Fodd bynnag, mae angen eglurhau fforddiadwyedd rhai o gynlluniau strategol yr Ymddiriedolaeth.

Fe wnes i bedwar argymhelliad sy’n canolbwyntio ar y canlynol

- cryfhau trefniadau rheoli polisi;
- gwella adroddiadau ar fframwaith sicrwydd cyfredol y bwrdd;
- eglurhau’r gallu i gyflawni ei gynllun ansawdd; ac
- adrodd ar unrhyw faterion gyda chyflwyno papurau’r Bwrdd a phwyllgorau mewn modd amserol.

## Rheoli’r galw am ofal brys ac argyfwng

Fe wnaeth fy nhîm ystyried pa mor dda y mae’r Ymddiriedolaeth yn rheoli’r galw am ofal brys ac argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system.

Canfûm fod newidiadau i’r modd y darperir gwasanaethau’n arwain at welliannau o ran rheoli’r galw am ofal brys ac argyfwng, gyda chymorth cynlluniau sy’n eglur ac yn cael eu monitro’n rheolaidd. Fodd bynnag, mae eu heffaith yn cael ei rhwystro gan gyfyngiadau mewn data cydgysylltiedig a mynediad at lwybrau amgen mewn byrddau iechyd yn ogystal â chan lefelau cyson uchel o oedi cyn trosglwyddo gofal mewn Adrannau Argyfwng.

Fe wnes ddau argymhelliad sy’n canolbwyntio ar y canlynol:

- ymdrin â gwybodaeth sy’n hen ar wefan 111 Cymru; a
- gweithio gyda byrddau iechyd i ddiweddaru gwybodaeth ar ei chyfeiriaduron gwasanaethau.

## Gwaith archwilio perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo

Ar adeg llunio’r adroddiad, roedd yr adolygiadau canlynol o Gynllun Archwilio 2025 yn dal i fynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth:

- trawsnewid digidol;
- rheoli ystadau; a
- Gwasanaethau Trafnidiaeth i Gleifion Nad Oes Angen Gofal Mewn Argyfwng Arnynt.

